# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-06-11 : Papur 4**

## Adolygiad o'r Opsiynau ar gyfer rhoi Polisïau Amgylcheddol ar waith

### Pwrpas

Mae'r papur hwn yn disgrifio sefyllfa ddiweddaraf yr adolygiad o'r opsiynau ar gyfer rhoi polisïau amgylcheddol ar waith.

### Cefndir

2. Rhoddwyd cyd-destun yr adolygiad o'r opsiynau ar gyfer rhoi polisïau amgylcheddol ar waith mewn datganiad ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2010. Nododd y datganiad hwnnw bod angen ystyried a oedd y trefniadau ar gyfer rhoi polisïau amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad ar waith yn briodol ar gyfer diwallu ei hanghenion yn y dyfodol. Mae nifer o ffactorau pwysig sy'n sbardun i newid y ffordd yr ydym yn rhoi polisïau amgylcheddol ar waith. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried y ffactorau hyn.

3.O safbwynt polisi, mae ""Cymru Fyw", "fframwaith Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr Amgylchedd Naturiol, yn argymell ffordd newydd integredig o reoli'r amgylchedd naturiol. Bydd ei seilio ar wasanaethau ecosystem yn helpu Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid i wneud y gorau o adnoddau Cymru ac yn sicrhau bod asedau naturiol Cymru'n cael eu diogelu a'u gwella.

4.Bydd y fframwaith yn helpu Cymru hefyd i ymdopi â'r sialensiau ddaw gyda'r newid yn yr hinsawdd, problemau fel mwy o lifogydd a phwysau ar y cyflenwad dwr, colli bioamrywiaeth a diogelwch y cyflenwad bwyd. Bydd troi egwyddorion ""Cymru Fyw"" yn weithredoedd yn debygol o olygu newid y ffordd yr ydym yn rheoli'r amgylchedd. Mae angen gwneud yn siwr bod y trefniadau priodol yn eu lle i roi'n polisïau amgylcheddol ar waith ac i ddiwallu ein hanghenion amgylcheddol yn y dyfodol.

5.Yn ogystal â'r pwysau cynyddol ar yr amgylchedd a datblygiadau polisi cysylltiedig, mae Llywodraeth y Cynulliad a'r sector cyhoeddus ehangach yn wynebu cyfyngiadau ariannol. Rhaid inni felly ystyried y trefniadau tymor hir mwyaf cynaliadwy er mwyn inni allu parhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf ar gyfer ein cymunedau a'n cwsmeriaid ledled Cymru.

6.Mae perygl cynyddol hefyd y gallai cadw'r drefn bresennol gael effaith andwyol ar allu Gweinidogion Cymru i wireddu'u blaenoriaethau yng Nghymru wrth i bolisïau'r cyrff dan sylw dyfu'n fwy a mwy gwahanol ac oherwydd agweddau gwahanol at ddarparu ac at rôl ac ariannu cyrff cyhoeddus

7.Dywedai'r datganiad ysgrifenedig bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (EAW), Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru (FCW) wrthi'n gweithio i rannu gwasanaethau cymorth a gweithredol. Am y rhesymau uchod, mae Llywodraeth y Cynulliad am i'r gwaith hwn fynd ymhellach ac i drefniadau a swyddogaethau gael eu had-drefnu mewn ffordd fwy sylfaenol. Y nod fyddai rheoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru mewn ffordd integredig ar sail ecosystemau gan roi'r gorau inni am ein harian.

### Y Sefyllfa Ddiweddaraf

8.Ffocws cychwynnol yr adolygiad oedd CCGC, EAW a'r FCW a'u swyddogaethau. Golygai cymharu amrywiaeth o opsiynau darparu posibl gan gynnwys yr opsiwn 'newid dim', newid rolau neu swyddogaethau rhai o'r cyrff, datblygu'r agenda i rannu gwasanaethau/gwaith a sefydlu Corff newydd ar gyfer rhoi polisïau amgylcheddol ar waith gan ymgorffori dau neu dri o'r cyrff sy'n destun yr adolygiad hwn. Rydym wedi cymharu'r holl opsiynau hyn â'r opsiwn 'newid dim'. Mae'r tri chorff wedi ymroi'n llawn i'r gwaith hwn.

9.Rydym wedi cymharu'r opsiynau ar sail nifer o ystyriaethau, gan edrych yn arbennig ar y manteision y byddai pob opsiwn yn esgor arnyn nhw, o safbwynt gweithio'n fwy effeithlon yn ogystal ag arbed adnoddau. Mae'r asesiad yn cynnwys hefyd asesiad cychwynnol o'r dadleuon economaidd ac ariannol a manteision ac anfanteision pob opsiwn.

10. Mae'r astudiaeth gychwynnol hon yn awgrymu, o safbwynt gwella'r canlyniadau a manteision amgylcheddol i bobl a chymunedau, mai'r opsiwn i greu corff newydd yw'r opsiwn a fyddai'n cynnig y cyfleoedd mwyaf i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y polisïau amgylcheddol yng Nghymru, yn unol â'r trywydd ecosystemau o wneud pethau a argymhellir yn ""Cymru Fyw"". Mae manteision yr opsiwn hwn yn cynnwys mynd ati'n well i reoli tir, aer a dwr yn gynaliadwy; rheoleiddio'n well; gwella cyfleoedd i bobl a chymunedau fwynhau eu hamgylchedd; a darparu gwasanaethau gwell sy'n rhoi'r dinesydd yn gyntaf. O'r opsiynau eraill, mae creu corff newydd o naill ai EAW/CCGC neu CCGC/FCW yn rhoi cyfleoedd i wella canlyniadau amgylcheddol hefyd, er na fyddent gymaint â'r opsiwn i greu corff sy'n ymgorffori'r holl sefydliadau.

11.Dangosodd yr astudiaeth gychwynnol hefyd bod yr opsiwn i rannu gwasanaethau yn cynnig rhai buddiannau, yn enwedig o safbwynt gweithio'n fwy effeithlon a darparu gwasanaethau sy'n rhoi'r dinesydd yn gyntaf. Bach oedd y manteision hyn fodd bynnag o'u cymharu â manteision sefydlu corff newydd o ddau neu dri chorff.

12. Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma ar yr opsiwn i sefydlu un corff amgylcheddol (i uno dau neu dri chorff) yn awgrymu y bydd dwy broblem o ran costau allai fod yn arwyddocaol iawn: pensiynau a thechnoleg. Mae staff CCGC a'r FCW yn perthyn i Gynllun Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil (PCSPS) tra bod staff yr EAW yn aelodau o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF), ffurf ar Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Byddai gan gorff amgylcheddol newydd amrywiaeth o opsiynau o ran ei drefniadau pensiwn a gallai rhai olygu costau wrth symud cronfa gyfan o un cynllun i'r llall. Yn ail, bydd yna gostau sefydlu TG i'w hysgwyddo, yn ogystal â chostau

gweddnewid ac addasu systemau TG.

13.Ar gyfer yr opsiynau eraill, roedd costau i'w hystyried ond nid gymaint â'r rheini fyddai'n gysylltiedig â sefydlu corff newydd.  O ran datblygu'r opsiwn ar gyfer rhannu gwasanaethau, y rhagdybiaeth oedd na eid ag unrhyw ran ohono ymhellach oni bai bod mantais amlwg o wneud.

14. Yn ogystal â'r uchod, dangosodd yr astudiaeth gychwynnol hefyd bod cyfyngiadau cyfreithiol mewn cysylltiad â rhoi nifer o'r opsiynau ar waith, o rannu gwasanaethau/gwaith i'r agenda sefydlu corff newydd sy'n ymgorffori dau neu dri chorff.  Deuai'r darpariaethau i ddatrys y cyfyngiadau cyfreithiol hyn o'r Mesur Cyrff Cyhoeddus y mae Ty'r Arglwyddi wrthi'n craffu arno ar hyn o bryd.  Yn gryno felly, bydd y darpariaethau yn y Mesur yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn cael newid a throsglwyddo swyddogaethau penodol sy'n cael eu gwneud gan CCGC, EAW a'r FCW i gorff newydd, ymhlith eraill.

### Y camau nesaf

15. Casgliad y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma yw y byddai manteision posibl o ddilyn yr opsiwn rhannu gwasanaethau neu o uno rhai agweddau ar y cyrff.  Er hynny daw'r manteision mwyaf o ddilyn yr opsiwn i greu corff amgylcheddol newydd yng Nghymru.  O ganlyniad, ac fel y gwnaethom ei nodi mewn Datganiad Ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad ar Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ar 28 Ionawr 2011, rydym bellach wedi gofyn i swyddogion wneud gwaith manylach ar yr opsiwn creu corff amgylcheddol sengl.  Bydd hyn yn datblygu'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn yr asesiad cychwynnol ac yn canolbwyntio ar nifer o ystyriaethau penodol.

16. I ddechrau, caiff gwaith manwl ei wneud ynghylch pwrpas, swyddogaeth a ffurf corff sengl.  Byddai hynny'n rhoi'r cyfle i ystyried pwrpas, ffurf a dyluniad manwl corff newydd, sy'n fwy na dim ond uno'r cyrff presennol.  Caiff cwmpas y cam nesaf ei estyn y tu hwnt i CCGC, EAW a'r FCW er mwyn ystyried y potensial i gynnwys gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth y Cynulliad neu gyrff perthnasol eraill o fewn yr un corff amgylcheddol neu i symud rhai o swyddogaethau'r tri chorff i gyrff eraill neu i Lywodraeth y Cynulliad.  Bydd y gwaith hwn yn ystyried hefyd yr ymatebion a ddaeth i law i'r trefniadau sefydliadol oedd yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar ""Cymru Fyw"".

17. Yn ail, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i glustnodi'r peryglon o ran costau, gyda'r nod o'u lleihau gymaint ag y medrir.  Prif ffocws y gwaith hwn fydd esbonio'r cynllun pensiwn a'r trefniadau TG posibl ar gyfer corff amgylcheddol newydd a'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ddewisir.  Ystyrir costau eraill hefyd.

18. Yn drydydd, bydd rhagor yn cael ei wneud i fireinio'r gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yma ar fanteision ac anfanteision sefydlu un corff amgylcheddol.  Bydd hyn yn datblygu'r astudiaeth gychwynnol ac yn manylu ar y manteision posibl, o safbwynt effeithlonrwydd ac arbedion.

19. Bydd yr elfennau amrywiol hyn yn ein helpu i ddatblygu achos busnes manwl i'w asesu gan gyd-swyddogion.  Llywodraeth newydd y Cynulliad fydd yn penderfynu'n derfynol a ddylid bwrw ymlaen â chreu corff amgylcheddol sengl, gan roi ystyriaeth i'r achos busnes manwl.  Mae tîm prosiect wedi'i sefydlu o secondiadau o'r cyrff dan sylw.  Gwaith y tîm fydd datblygu'r gwaith hwn gyda chymorth grwp llywio o gynrychiolwyr o fyrddau'r tri chorff a Llywodraeth y Cynulliad.  Byddwn hefyd yn sefydlu fforwm Ochr Undebau Llafur a byddwn yn parhau i siarad â buddiannau eraill trwy raglen Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

**Gweinidog yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**
**Gweinidog Materion Gwledig**
**Mawrth 2011**